Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Academi Sgiliau Cymru yng Ngrŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot
**Heol Dŵr-y-Felin**
**Castell-nedd**
**SA10 7RF**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Academi Sgiliau Cymru yng Ngrŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot

Sefydlwyd Academi Sgiliau Cymru yng Ngrŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot fel y consortiwm dysgu yn y gwaith cyntaf o'i fath yng Nghymru ym mis Hydref 2009. Er Awst 2010, mae'r consortiwm wedi bod yn gweithredu ar ffurf contract unigol gyda Llywodraeth Cymru, dan arweiniad Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, i gyflwyno rhaglenni dysgu yn y gwaith.

Tua £11.9 miliwn yw gwerth contract presennol Academi Sgiliau Cymru. Maent yn darparu rhaglenni hyfforddiant mewn amrywiaeth eang o feysydd dysgu. Maent yn cyflwyno rhaglenni o hyfforddeiaeth i brentisiaeth uwch lefel 5. Ar adeg yr arolygiad, roedd oddeutu 2,700 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Aelodau'r consortiwm**
Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot (Hyfforddiant Llwybrau/Pathways Training)
ACO Training Limited
Coleg y Cymoedd
Gwendraeth Valley Community Enterprise Limited (yn masnachu fel Gweithlu Cymru)
Learn-Kit Limited
Cyngor Gwledig Llanelli (LRC Training)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Medrau a Hyfforddiant)
Swansea ITEC Limited.

**Isgontractwyr:**
Assessment & Training Company Limited
Call of the Wild
Care Credentials Wales Limited
JP Training Consultancy Limited
Intertrain Limited
Menter Training Limited
More Training
Cyngor Sir Penfro (Futureworks)
SKILLSCERT
Sirius Skills Consulting Limited
Professional Training and Assessment Services Limited
Wastesavers Training

**Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno hyfforddiant yn y meysydd dysgu canlynol:**

- Amaeth, garddwriaeth a rheoli adnoddau'n gynaliadwy
- Gweinyddu busnes a chyfrifeg
- Adeiladu, gwaith plymer, electrodechnegol a thirfesur
- Iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, gwaith chwarae a nyrsio deintyddol
- Cyngor ac arweiniad
- Rheolaeth, arwain tîm a rheolaeth broffesiynol
- Gweithgynhyrchu
- Ffitrwydd Uwch a Ffitrwydd Ymarfer

- Rhagoriaeth mewn chwaraeon a datblygu chwaraeon
- Trin gwallt a gwaith barbwr
- Manwerthu, gwasanaeth cwsmeriaid a gwaith warws
- Cefnogi dysgu ac addysgu
- Lletygarwch ac arlwyo
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a’r cyfryngau digidol
- Peirianneg, peirianneg yn seiliedig ar y tir, peirianneg rheilffyrdd a cherbydau modur
- Logisteg a chludiant

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf tuag at gwblhau eu rhaglenni hyfforddi yn llwyddiannus. Datblygant lefelau uchel iawn o gymhwysedd ymarferol a gwybodaeth am theori. Mae dysgwyr yn datblygu medrau ehangach yn gysylltiedig â gwaith sy'n eu galluogi i gael gwaith a'i gadw. Mae dysgwyr ar bob lefel wedi'u cymell i lwyddo ac mae llawer ohonynt yn frwdfrydig ac yn awyddus i symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni fframweithiau prentisiaeth a rhaglenni hyfforddi eraill arnynt ar bob lefel yn gyson gadarn.

Ar draws partneriaid, mae aseswyr yn cynnig addysgu, hyfforddi ac asesu o ansawdd uchel yn gyson i ddysgwyr. Mae aseswyr yn rhoi cymorth personol arbennig o effeithiol i ddysgwyr. Maent yn symbylu ac yn annog dysgwyr i wneud y cynnydd y gallent ei wneud. Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth eang o gyflogwyr sy'n cyflwyno rhaglenni ar draws llawer o feysydd dysgu.

Mae'r bartneriaeth yn hen sefydledig ac yn aeddfed, gydag arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol clir. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu'n dryloyw ac yn gynhwysol, gan gydnabod a defnyddio arbenigedd pob partner yn dda. Mae prosesau hunanasesu a gwella ansawdd y darparwr yn gynhwysfawr. O ganlyniad i'r trefniadau gweithio'n agos mewn partneriaeth, mae'r darparwr wedi sicrhau bod ansawdd hyfforddiant ar draws partneriaid yn gyson, gyda safonau cadarn ymhlith dysgwyr.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod dealltwriaeth drylwyr gan yr holl aelodau staff o atal radicaleiddio a'u bod yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r pwnc yn effeithiol

A2 Gwella hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni fel medr yn y gweithle i ddysgwyr

A3 Ffocysu datblygiad proffesiynol ar wella gwybodaeth a deilliannau dysgwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau ymarferol cryf yn gysylltiedig â gwaith a gwybodaeth gadarn am theori. O ganlyniad, dônt yn aelodau staff gwerthfawr a datblygant amrywiaeth eang o fedrau sy'n gysylltiedig â'u diwydiant yn gyflym, sy'n eu galluogi i gadw eu swydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'u symbylu, yn frwdfrydig ac yn awyddus i symud ymlaen i lefel nesaf eu rhaglen hyfforddiant. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn hyderus wrth ateb cwestiynau am eu gwaith ac wrth gyfathrebu â'u cyflogwyr a'u cymheiriaid. Maent yn gallu esbonio'n gywir sut mae theori wedi cysylltu â'u gweithgareddau yn y gweithle. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella'u medrau siarad a gwrando o gymharu â'u mannau cychwyn ac yn gallu addasu'u dull o ddelio â phobl a sefyllfaoedd gwahanol yn hyderus, ymhen fawr o dro.

Mae dysgwyr prentisiaethau uwch yn datblygu'u medrau presennol yn dda wrth ymgymryd ag amrywiaeth eang o dasgau cymhleth yn eu gweithle. Mae llawer o ddysgwyr sydd ar brentisiaeth yn uchelgeisiol ac yn benderfynol o fynd ymlaen i rolau mwy cyfrifol yn eu sefydliad. Mae llawer o ddysgwyr sy'n ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth y Tywysog yn datblygu diddordeb yn yr amgylchedd wrth weithio ar brosiectau cymunedol, er enghraifft creu llwybrau i gadeiriau olwynion mewn gwarchodfa anifeiliaid. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn datblygu medrau arweinyddiaeth a gweithio'n dda mewn tîm trwy reoli eu timau gwaith yn eu tro a thrwy roi blaenoriaeth i dasgau a ddosberthir er mwyn sicrhau bod aelodau tîm yn gwneud cyfraniad effeithiol. Mewn rhaglenni hyfforddeiaeth, mae dysgwyr yn datblygu medrau newydd a hyder i wynebu rhwystrau rhag dysgu. Maent yn datblygu eu hyder ac yn goresgyn ofnau wrth siarad â phobl, ac, i'r dysgwyr hyn, mae'n brofiad sy'n aml yn gadarnhaol ac yn newid bywyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o safon addas o leiaf ac mae ychydig ohonynt yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uwch. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn strwythuro'u gwaith yn dda ac yn defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg yn briodol. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae ychydig ddysgwyr yn defnyddio targedau defnyddiol yn eu cynlluniau dysgu unigol i ategu gwelliant neu maent yn defnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru yn dda i ddatblygu'u medrau. Fodd bynnag, nid yw ychydig ddysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae llawer o ddysgwyr hyfforddeiaethau ag anghenion cymorth ac anghenion dysgu ychwanegol cymhleth yn gwneud cynnydd cryf o ganlyniad i gwblhau eu rhaglen hyfforddi. Mae'r dysgwyr hyn yn gweithio'n arbennig o galed i oresgyn rhwystrau personol cymhleth ac amrywiol. O ganlyniad, enillant y medrau a'r profiadau hanfodol y mae arnynt eu hangen i ddechrau ym myd gwaith, yn aml am y tro cyntaf.

Mae mwyafrif dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn defnyddio'u medrau iaith yn briodol yn y gweithle ac wrth ymgymryd â gweithgareddau hyfforddi. Ychydig bach iawn o

siaradwyr Cymraeg sy'n dewis cyflawni asesiadau ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni fframweithiau prentisiaeth a phrentisiaeth sylfaen a chymwysterau eraill arnynt yn gryf ac wedi cyd-fynd â chyfartaledd y sector, neu wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd hwnnw, dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae dysgwyr yn cyflawni'n arbennig o dda mewn rhaglenni busnes, gweinyddu a'r gyfraith, manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid, a pheirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyfraddau llwyddiant ar raglenni prentisiaeth uwch wedi bod uwchlaw cyfartaledd y sector. Mae cyfraddau llwyddiant ar draws rhaglenni eraill, gan gynnwys dysgu hyblyg, hyfforddeiaethau ac ymgysylltu, wedi bod gerllaw cyfartaledd y sector dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae mwyafrif y dysgwyr yn cyflawni'u cymwysterau medrau hanfodol ar lefelau sy'n briodol i'w fframwaith; mae ychydig ohonynt yn cyflawni ar lefel uwch.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwd ac wedi'u symbylu'n briodol i gwblhau eu rhaglen hyfforddi. Mae llawer ohonynt yn awyddus i barhau â'u hyfforddiant a symud ymlaen i'r lefel uwch nesaf. Dangosant agwedd gadarnhaol at ddysgu, maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cyflogwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda yn unigol ac wrth weithio fel aelod o dîm mewn grwpiau bach. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynnal eu canolbwyntio'n dda ac yn osgoi pethau sy'n tynnu'u sylw yn ystod sesiynau hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn uniaethu'n dda â chymheiriaid, aseswyr a'u cyflogwyr. Maent yn parchu ac yn gwerthfawrogi barn a chyfraniadau pobl eraill mewn trafodaethau, hyd yn oed pan fydd eu barn yn wahanol i'w barn nhw. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau cyfathrebu sy'n rhoi iddynt yr hyder i weithio'n annibynnol gyda goruchwylwyr, aseswyr, cleientiaid a chwsmeriaid.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddwch yn eu gweithle ac wrth fynychu canolfannau hyfforddi. Dangosant ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'u hunain yn ddiogel a gallent amlygu problemau iechyd a diogelwch posibl yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymhwyso'u gwybodaeth yn dda ac yn gallu esbonio'n glir sut mae eu dysgu wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu harferion gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth sicr o risgiau i ddiogelwch a gweithdrefnau adrodd o ganlyniad i'w rhaglen sefydlu a thrafodaethau yn ystod cyfarfodydd adolygu. Fodd bynnag, nid oes gan fwyafrif y dysgwyr ddealltwriaeth ddigonol o sut i ymateb i broblemau radicaleiddio ac eithafiaeth posibl, na rhoi gwybod amdanynt.

Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr wybod am ganllawiau diogelwch ar-lein. Nid yw dysgwyr nad ydynt yn dilyn cymhwyster llythrennedd digidol yn dangos digon o ymwybyddiaeth o sut i gadw'u hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael gwybodaeth ddefnyddiol am sut i wneud dewisiadau iach o ran diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol. Mae dysgwyr ymgysylltu yn ymgymryd â rhaglen chwe wythnos hynod effeithiol ar lesiant i ddatblygu eu medrau bywyd a'u gwydnwch emosiynol. O ganlyniad, fe wnaeth eu presenoldeb gynyddu ac, yn fwyaf arwyddocaol, fe wnaeth y rhaglen wella'u symbyliad a'u huchelgais i lwyddo yn eu rhaglen hyfforddi.

Mae llawer o ddysgwyr ar raglenni ymgysylltu a hyfforddeiaeth yn elwa o ymgysylltiad gwerthfawr ag asiantaethau cymorth allanol ac maent yn ymroi'n dda i sesiynau datblygu personol buddiol. Dangosant ddiddordeb cadarnhaol yn yr amgylchedd a gwnânt gyfraniadau cynhyrchiol at amrywiaeth eang o brosiectau cymunedol buddiol. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn datblygu'r dyfalbarhad a'r gwydnwch angenrheidiol i oresgyn rhwystrau personol arwyddocaol a chwblhau eu hyfforddiant yn llwyddiannus.

Mae llawer o ddysgwyr yn ymroi'n dda i brosiectau yn y gymuned ac yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o waith elusennol. Mae un tîm o ddysgwyr yn helpu menter gardd gymunedol i dyfu llysiau, y maent yn eu rhoi i fanc bwyd. Fe wnaeth tîm arall wisgo gwisgoedd ffansi i gymryd rhan mewn gweithgarwch Calan Gaeaf i godi arian i warchodfa anifeiliaid leol.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'n ddinasyddion mwy gwybodus trwy drafodaethau addysgiadol ar bynciau llosg yn ystod adolygiadau o gynnydd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Ar y cyfan, mae gan ansawdd addysgu, hyfforddi ac asesu nodweddion cryf, ac mae angen gwella ychydig mân feysydd yn unig.

Mae gan bron pob un o'r aseswyr gysylltiadau sefydledig a chryf gydag amrywiaeth eang o gyflogwyr. Mae cyflogwyr yn cefnogi'u dysgwyr yn dda ac yn rhoi profiadau dysgu cadarnhaol i'w dysgwyr. Mae gan bron pob un o'r aseswyr gyfoeth o brofiad yn y diwydiant ac maent yn adnabod eu maes dysgu yn arbennig o dda. Mae gan y rhan fwyaf o aseswyr lefelau uchel o ddisgwyliadau ar gyfer eu dysgwyr a rhoddant lefelau effeithiol o gymorth a her i sicrhau bod y dysgwyr yn cyflawni eu potensial.

Mae aseswyr yn cynnal adolygiadau rheolaidd ac effeithiol o gynnydd gyda'u dysgwyr. Mae bron pob un o'r aseswyr yn gosod targedau byrdymor defnyddiol a pherthnasol, gan yn aml roi'r grym i ddysgwyr nodi a gosod eu nodau eu hunain ar gyfer yr adolygiad nesaf. Mae bron pob un o'r aseswyr yn cynllunio gweithgareddau asesu a sesiynau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn dda. Mae aseswyr yn defnyddio amrywiaeth addas o ddulliau asesu ac addysgu ac yn paru cymhlethdod ac arddull ag anghenion dysgwyr, o gymwysterau lefel 1 i lefel 5. Mae llawer o aseswyr yn hynod fedrus wrth ddefnyddio technegau holi er mwyn procio a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r dasg a ddewiswyd ganddynt. Mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn cynnig sylwadau defnyddiol ac adborth adeiladol ar waith ysgrifenedig dysgwyr i'w helpu i wella.

Mae bron pob un o'r aseswyr yn marcio gwaith dysgwyr yn rheolaidd ac yn cywiro gwallau sillafu a gramadeg.

Mae aseswyr yn defnyddio systemau effeithiol i olrhain cynnydd dysgwyr tuag at eu nod cymhwyster. Mae'r darparwr arweiniol yn casglu'r wybodaeth hon oddi wrth bob partner ac is-gontractwr yn fisol i sicrhau bod pob dysgwr ar y trywydd iawn i gyflawni. Pan amlygir cynnydd araf, bydd y darparwr arweiniol yn datblygu cynllun gweithredu cymorth a bydd aseswyr yn monitro cynnydd dysgwyr yn fanwl.

Mae'r darparwr yn cynnig amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n cyfateb yn dda i ddyheadau gyrfaol dysgwyr a lefel eu gallu. Mae hyfforddiant ar gael mewn amrywiaeth o feysydd dysgu oherwydd bod y darparwr yn gweithio gyda chynifer o gyflogwyr. Mae'r darparwr yn sicrhau bod aseswyr yn rhoi cymorth personol effeithiol iawn i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn iddynt oresgyn eu rhwystrau rhag dysgu. Mae'r darparwr yn sicrhau bod gan ddysgwyr gyfleoedd ehangach i gymryd rhan, drwy eu cyflogwr yn aml, mewn digwyddiadau codi arian i elusennau lleol, tacluso ardaloedd lleol ac, er enghraifft, llenwi blychau esgidiau i blant dan anfantais.

Mae'r darparwr yn rhoi ystyriaeth briodol i ddatblygiad medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr wrth gynllunio hyfforddiant. Mae bron pob un o'r aseswyr yn gosod targedau priodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Er enghraifft, datblygant arddulliau ymchwil ac ysgrifennu i gynhyrchu adroddiadau arfarnol, clir. Fodd bynnag, nid yw ychydig aseswyr bob amser yn annog dysgwyr i ddatblygu'r medrau hyn yn y gweithle yn ddigon da. Ar draws y bartneriaeth, nid yw medrau digidol dysgwyr yn cael eu datblygu na'u cyflwyno'n ddigonol gan bob partner a maes dysgu.

Caiff bron pob un o'r dysgwyr gyfleoedd priodol i ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u cymuned leol. Mae aseswyr yn hyrwyddo'r defnydd ar adnoddau fel rhaglen ar-lein, Ein Hiaith, sy'n codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a threftadaeth Cymru yn dda. Mae'r darparwr wedi datblygu nifer o adnoddau Cymraeg sy'n addas i amrywiaeth o feysydd dysgu. Er enghraifft, mae prentisiaid nyrsio deintyddol yn defnyddio ymadroddion fel 'mae'r deintydd yn barod nawr' ac mae prentisiaid gwaith plymer, gwresogi ac amaeth yn defnyddio termau technegol sydd i'w gweld yn llyfrynnau Cymraeg yn y gweithle'r darparwyr. Fodd bynnag, nid yw ychydig aseswyr yn ddigon rhagweithiol o ran hyrwyddo budd yr iaith Gymraeg fel medr gwaith. Nid ydynt yn annog dysgwyr Cymraeg eu hiaith i ddatblygu eu medrau iaith yn y gweithle.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae asesiad cychwynnol dysgwyr yn llywio cynllunio hyfforddiant yn dda. Mae aseswyr yn defnyddio'r asesiad o anghenion dysgwyr ymgysylltu yn arbennig o dda i ddarparu cymorth unigol wedi'i deilwra. Mae aseswyr yn gwneud defnydd da o bynciau lles misol y darparwyr i gychwyn trafodaethau gyda dysgwyr yn ystod adolygiadau. Mewn ychydig achosion, mae aseswyr yn defnyddio cyfleoedd naturiol yn dda i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r holl aseswyr yn ymweld â dysgwyr sy'n brentisiaid yn rheolaidd. Mae aseswyr yn monitro ac olrhain cynnydd dysgwyr yn dda. Lle y bo ganddynt bryderon bod angen cymorth ychwanegol ar ddysgwr, maent yn datblygu cynlluniau gweithredu clir y maent yn eu monitro'n rheolaidd.

Mae bron pob un o'r aseswyr yn defnyddio'u hymweliadau â dysgwyr yn effeithiol i'w symbylu ac i fonitro eu cynnydd tuag at eu nodau cyflog yn fanwl ac yn systematig.

Mae hyn yn sicrhau eu bod yn adnabod anghenion unigol eu dysgwyr yn dda. Mae aseswyr yn amlygu'n gyflym os yw unrhyw ddysgwyr yn cael trafferth gwneud cynnydd. Rhoddant gymorth effeithiol, fel mentora, i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau posibl rhag dysgu. Mae'r darparwr wedi cefnogi dysgwyr â chymorth arbenigol, fel gwasanaethau cymdeithasol, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall a chwnsela ar gyfer profedigaeth.

Mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn cydweithio'n dda â gweithwyr proffesiynol eraill, fel gweithwyr ieuenctid a thimau troseddau ieuenctid, i sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth da ac yn datblygu'u medrau rhyngbersonol, sy'n eu helpu i lwyddo mewn rhaglenni a datblygu gwydnwch. Mae gan y darparwr gysylltiadau effeithiol â thimau cymorth pobl ifanc ethnig a rhwydweithiau partneriaethau cymunedol i gynorthwyo dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol i fanteisio ar gyfleoedd dysgu. Mae'r darparwr yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru ac ysgolion lleol i sicrhau bod darpar ddysgwyr yn cael cyngor ac arweiniad priodol ynghylch y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael iddynt. Mae'r holl aseswyr yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o offer diogelwch yn y gweithle ac, yn ystod ymweliadau, yn cadarnhau fel mater o drefn nad yw dysgwyr wedi wynebu aflonyddu, problemau diogelu nac eithafiaeth. Mae'r darparwr yn rheoli diogelu yn briodol. Nid oes unrhyw bryderon arwyddocaol am ddiogelu sy'n deillio o ddarpariaeth y darparwr.

Mae'r darparwr yn cyflwyno hyfforddiant defnyddiol ar ddiogelu a radicaleiddio i staff y darparwr ac i isgontractwyr. Mae bron pob un o'r aseswyr yn deall gweithdrefnau diogelu yn glir. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr achosion, mae diffyg dyfnder yn nealltwriaeth aseswyr o radicaleiddio ac maent yn mynd i'r afael â'r pwnc hwn yn arwynebol yn aml.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Ers ei ffurfio yn 2009, mae Academi Sgiliau Cymru wedi sefydlu partneriaeth sefydlog ac aeddfed, wedi'i nodweddu gan gyfathrebu agored a thryloyw rhwng ei harweinwyr, ei phartneriaid a'i hisgontractwyr.

Mae gan y darparwr amrywiaeth briodol o grwpiau rheoli a gweithgorau sy'n adrodd yn y pen draw i fwrdd gweithredol y darparwr, dan gadeiryddiaeth prif weithredwr y darparwr arweiniol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys aelodau o'r holl bartneriaid ac maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir. Mae uwch arweinwyr yn cynnig cyfeiriad a goruchwyliaeth effeithiol i waith y darparwr ac, o ganlyniad, mae'r holl bartneriaid yn deall cyfeiriad strategol y darparwr a'u cyfraniad at ei lwyddiant. Mae corff llywodraethol y darparwr arweiniol yn craffu'n effeithiol ar eu gwaith.

Mae trefniadau ar gyfer penodi a rheoli perfformiad isgontractwyr yn gynhwysfawr. Partneriaid sydd â'r prif gyfrifoldeb am isgontractwyr ac maent yn gwbl atebol am eu perfformiad. Mae grŵp ymgynghorol yr isgontractwyr, a sefydlwyd yn ddiweddar, yn cynnig fforwm ychwanegol defnyddiol i isgontractwyr gyfathrebu a chyfrannu at waith y darparwr.

Mae gan y darparwr weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, sy'n cael eu defnyddio'n gyson ar draws partneriaid. Rhoddant gyfleoedd effeithiol i amrywiaeth eang o randdeiliaid gyfrannu at y broses hunanarfarnu. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanafarnu yn adlewyrchiad gonest a chywir o berfformiad y darparwr ac

mae'n amlygu meysydd a thargedau allweddol i'w datblygu. Fodd bynnag, mewn ychydig fannau, mae diffyg dadansoddi clir yn yr adroddiad.

Mae gan y darparwr strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol ei staff. Mae'r strategaeth wedi'i chysylltu'n dda â'r meysydd i'w datblygu a amlygwyd drwy'r broses hunanarfarnu, ac anghenion staff unigol. Mae digwyddiadau hyfforddi diweddar yn cynnwys ffocws ar Atal, llythrennedd digidol a'r Gymraeg, er nad yw'r rhain wedi cael effaith fesuradwy eto. Mae cynhadledd flynyddol fuddiol i staff, sy'n galluogi cyfleoedd i rwydweithio a sefydlu cysylltiadau ar draws partneriaid.

Mae rheolwyr yn cynnal matrics staffio defnyddiol, sy'n amlygu medrau ac arbenigedd penodol staff ar draws y darparwr ac yn galluogi i reolwyr gynllunio hyfforddiant, cydweithio a manteisio ar adnoddau partneriaid eraill lle bo angen.

Mae'r darparwr yn rheoli ei adnoddau yn dda. Mae partneriaid yn rhannu data yn dryloyw ac mae hyn yn llywio penderfyniadau ar ddyrannu cyllid rhwng partneriaid, fel bo'r angen. Mae partneriaid yn defnyddio'u staff yn hyblyg ac yn ofalus, er enghraifft i gefnogi dysgwyr y mae angen cynnal ymweliadau ychwanegol â nhw.

Mae partneriaid ac isgontractwyr yn gwneud cyfraniadau effeithiol iawn at grwpiau rheoli a gweithgorau. Caiff hyn ddwy effaith, sef rhannu'r baich gwaith rheoli yn deg rhwng partneriaid a darparu cyfleoedd arwain a datblygu gwerthfawr hefyd i arweinwyr a darpar arweinwyr ar draws y darparwr. Mae'r darparwr yn manteisio ar arbenigedd ac adnoddau partneriaid yn dda, i fanteisio ar yr arbedion maint mae partneriaeth fawr yn eu cynnig. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth yn defnyddio digwyddiadau safoni a hyfforddi ar y cyd i leihau costau a gwella cysondeb.

Mae'r darparwr wedi ymateb yn dda i gynnydd yn y galw gan gyflogwyr am brentisiaethau ac mae'n gweithio'n dda mewn partneriaeth gyda chyflogwyr ac asiantaethau eraill i gynyddu cyfleoedd i ddysgwyr. Mae rhaglen brentisiaeth ddefnyddiol ar y cyd ag awdurdod lleol yn caniatáu i ddysgwyr sy'n cael eu cyflogi mewn mentrau bach a chanolig yn y sector peirianneg gyflawni'r holl amrediad o brofiad gwaith y mae'r cymhwyster yn galw amdano, trwy symud rhwng cyflogwyr.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/03/2018